Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol

2021-2026




llyw.cymru

# Cynnwys


1 Rhagair

2 Pennod 1: Cyflwyniad

3 Pennod 2: Cefndir

4 Pennod 3: Amcanion

5 Pennod 4: Cenhadaeth

6 Pennod 5: Gweithio’n Gynaliadwy


OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43245 ISBN digidol 978-1-80195-805-9



**Rebecca Evans AS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

# Rhagair

**Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu Cymru lewyrchus ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae portffolio eiddo a reolir yn strategol yn ein galluogi i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol a gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.**

Amlinellodd ein Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol gyntaf, a gyhoeddwyd yn 2016, y cefndir. Ers hynny, rydym wedi gweld gwelliannau o ran y ffordd rydym yn rheoli ein hasedau ein hunain a'r ffordd rydym yn helpu'r sector cyhoeddus ehangach i gydweithio er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ein nodau polisi ar y cyd.

Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol newydd hon yn nodi dull mwy uchelgeisiol o reoli ein hasedau. Mae gan ein hasedau eiddo ein hunain gryn botensial i ddod â manteision i bobl Cymru ond mae angen inni hefyd fanteisio ar y cyfle hwn a defnyddio ein hasedau eiddo i gefnogi camau gweithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â'r problemau mwy sylweddol rydym yn eu hwynebu, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd. Felly, rydym yn defnyddio gwerthoedd cyfiawnder amgylcheddol a chymdeithasol, sy'n arbennig o Gymreig, i lywio nodau ein strategaeth. Rydym yn cydnabod gwerth cydweithio i'n cymunedau ac, felly, rydym hefyd wedi atgyfnerthu ein rôl gorfforaethol i helpu ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gydweithio'n effeithiol.

Mae effaith gyfunol cyni cyllidol, COVID-19 a'r argyfwng hinsawdd yn golygu bod angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o arloesi a chydweithio. Rhaid inni weithio i sicrhau bod buddsoddiad yn ein hasedau eiddo yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau dyfodol cynaliadwy carbon isel i bawb. Gall ein camau gweithredu gefnogi economïau lleol drwy flaenoriaethu iechyd a bywiogrwydd ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi, gan ddarparu cartrefi fforddiadwy a swyddi diogel. Mae hon yn her enfawr ond mae'n cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl, dylanwadu ar y sector cyhoeddus a'r sector preifat ehangach a defnyddio ein sylfaen asedau gwerthfawr i sicrhau gwerth cyhoeddus.

Pennod 1

# Cyflwyniad

**Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar bortffolios mawr o asedau tir ac eiddo sydd wedi'u caffael dros flynyddoedd lawer. Mae'r asedau tir ac eiddo sy'n ffurfio'r portffolios hyn yn amrywio o ran y defnydd a wneir ohonynt a'u hamcanion. Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar fwy na 600 o asedau, gan gynnwys swyddfeydd, eiddo datblygu, asedau treftadaeth, adeiladau arbenigol a thir datblygu ac mae'n ariannu asedau yn y sector cyhoeddus ehangach megis ysbytai ac ysgolion.**

Elfen allweddol o'r ffordd rydym yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yw'r ffordd rydym yn rheoli ein hasedau tir ac eiddo. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol newydd mewn tair rhan, sy'n cynnwys y canlynol:

- Polisi Rheoli Asedau
- Strategaeth Rheoli Asedau
- Cynlluniau Rheoli Portffolio).

Mae'r strwythur hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni wrth ddiweddaru'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol am fod oes wahanol i bob adran. Mantais mabwysiadu'r dull hwn o weithredu yw y bydd llawer o elfennau polisi rheoli asedau a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru yn gyson dros sawl blwyddyn tra bydd oes ychydig yn fyrrach i'r strategaeth am ei bod yn debygol o newid yn amlach nag ein hamcanion polisi tir ac eiddo. Caiff y ddwy ddogfen hyn eu hategu gan gynlluniau rheoli portffolio ar gyfer pob is-adran. "Dogfennau byw" fydd y rhain a chânt eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau sy'n newid.

Pennod 2

# Cefndir

**Mae gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o asedau tir ac eiddo mewn nifer o bortffolios adrannol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn dilyn adolygiad o'r asedau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2013, cymeradwyodd y Gweinidog Cyllid y Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol gyntaf a gyhoeddwyd yn 2016.**

Ein huchelgais yw rheoli ein hasedau tir ac eiddo mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth cyhoeddus i bobl Cymru nawr ac yn y dyfodol, gan geisio gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang ar yr un pryd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein hasedau yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at saith nod llesiant Cymru sy'n nodi llwybr cynaliadwy i Gymru yn yr hirdymor. Byddwn yn rheoli ein hasedau mewn ffordd sy'n cyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu newydd gan ganolbwyntio ar werthoedd cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, sy'n arbennig o Gymreig.

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fframwaith datblygu cenedlaethol, *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040*, y bwriedir iddo gael ei ddarllen ochr yn ochr â *Polisi Cynllunio Cymru*. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyfeiriad polisi allweddol ar gyfer meddwl yn strategol wrth gaffael, rheoli a gwaredu ein hasedau. At hynny, bydd y strategaeth buddsoddi mewn seilwaith, a fydd yn cael ei chyhoeddi maes o law, yn cynnig cyfle i gysoni gwaith rheoli asedau strategol â nodau ac amcanion ar gyfer seilwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac mae'n ymrwymedig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae newid i gymdeithas carbon isel yn hanfodol er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed uchelgeisiol i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030, sy'n golygu bod gan ein hasedau rôl allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu at ddatgarboneiddio. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio tuag at ddatgarboneiddio, gwella bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd drwy reoli ein hasedau yn gynaliadwy ac yn effeithiol.

Pennod 3

# Amcanion

**Mae'r Polisi Rheoli Asedau hwn yn nodi rhai amcanion clir y byddwn yn rheoli ein hasedau tir ac eiddo er mwyn eu cyflawni. Bydd y Polisi yn parhau ar waith am y pum mlynedd nesaf ond caiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol i'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni.**

1. Cynllunio a rheoli asedau tir ac eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn gwella llesiant pobl Cymru.

2. Darparu'r eiddo cywir, sy'n addas at y diben, yn y lle cywir, er mwyn diwallu anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol lleol a chynllunio ar gyfer Cymru gydnerth yn y dyfodol.

3. Rheoli a chynnal a chadw eiddo yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy a sicrhau'r canlyniadau gwerth cyhoeddus gorau o gaffael, rheoli a gwaredu asedau.

4. Rheoli blaenoriaethau croes er mwyn ysgogi gwaith datblygu a thwf cynaliadwy, gan sicrhau cysoni strategol ar gyfer Cymru lewyrchus.

5. Hyrwyddo cydweithio er mwyn gwella economi, amgylchedd a llesiant pobl Cymru.

Pennod 4

# Cenhadaeth

**Ein cenhadaeth yw datblygu a rheoli portffolio tir ac eiddo effeithiol, effeithlon a darbodus sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf posibl at y Saith Nod Llesiant.**

Er mwyn cefnogi saith elfen allweddol ein cenhadaeth rydym wedi nodi pum amcan polisi. Mae'r amcanion hyn a'r camau gweithredu a'r ymddygiadau sy'n eu hategu yn disgrifio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i reoli asedau yn strategol a sicrhau gwerth cyhoeddus a rhagor o fanteision drwy reoli ein hasedau yn effeithiol.

## Cymru lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

## Cymru gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

## Cymru iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

## Cymru o gymunedau cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Pennod 5

# Gweithio'n Gynaliadwy

**Wrth ddatblygu ein hamcanion er mwyn cefnogi ein cenhadaeth i sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Saith Nod Llesiant, mae camau gweithredu ac ymddygiadau penodol y bydd angen inni eu mabwysiadu mewn perthynas â'n hasedau tir ac eiddo. Rydym wedi datblygu'r camau gweithredu a'r ymddygiadau hyn er mwyn ategu'r Pum Ffordd o Weithio ac fe'u nodir isod heb eu rhestru mewn unrhyw drefn flaenoriaeth benodol.**

## 1. Cynllunio a rheoli asedau tir ac eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn gwella llesiant pobl Cymru.

- Byddwn yn targedu blaengynllunio asedau tir ac eiddo yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040' a'r rhaglen lywodraethu er mwyn sicrhau y gall asedau ymateb i anghenion sy'n newid.
- Byddwn yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddysgu o brofiad blaenorol a nodi cyfleoedd i reoli ein hasedau er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio, gwella bioamrywiaeth a chefnogi cydlyniant cymunedol.
- Byddwn yn ceisio sicrhau bod gweithgarwch cynllunio a rheoli asedau yn ystyried pob un o'r amcanion llesiant. Byddwn yn sicrhau bod cydbwysedd effeithiol rhwng blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau polisi.
- Byddwn yn ceisio cynnwys y bobl a'r sefydliadau cywir yn y gwaith o gynllunio a rheoli asedau i gyflawni canlyniadau llesiant hirdymor.
- Byddwn yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid allweddol yn y broses gynllunio er mwyn gweithio i sicrhau gwerth cyhoeddus i bobl Cymru drwy ein hasedau.

## 2. Darparu'r eiddo cywir, sy'n addas at y diben, yn y lle cywir, er mwyn diwallu anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol lleol a chynllunio ar gyfer Cymru gydnerth yn y dyfodol.

- Byddwn yn gweithio i ddarparu eiddo sy'n hyblyg ac wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion sy'n newid.
- Byddwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau allyriadau carbon sero net drwy geisio sicrhau bod ein hasedau mor gynaliadwy â phosibl o ran y ffordd y cânt eu cynllunio, eu hadeiladu, eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw.
- Byddwn yn gweithio gyda phortffolios gwahanol er mwyn deall eu gofynion a sicrhau bod asedau wedi'u halinio'n strategol.
- Byddwn yn gweithio i gynnwys pobl leol, cymunedau amrywiol a phartneriaid er mwyn ceisio sicrhau bod asedau yn dod â manteision i bobl Cymru.

## 3. Rheoli a chynnal a chadw asedau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy a sicrhau'r canlyniadau gorau o ran gwerth cyhoeddus o gaffael, rheoli a gwaredu asedau.

- Wrth gaffael a rheoli asedau yn unol ag arferion gorau, byddwn yn ystyried sut y cânt eu defnyddio yn yr hirdymor ac yn nodi defnyddiau amgen eraill lle y bo'n briodol.
- Byddwn yn darparu adeiladau diogel ac iach sy'n briodol i'r defnydd y bwriedir ei wneud ohonynt ac yn gweithio i nodi problemau yn gyflym ac yn effeithiol. Byddwn yn dilyn arferion gorau a chanllawiau perthnasol wrth gaffael, rheoli a gwaredu asedau.
- Byddwn yn gweithio i wella canlyniadau gwerth cyhoeddus drwy integreiddio amcanion polisi ehangach yn ein prosesau rheoli asedau.
- Byddwn yn herio'r defnydd presennol o asedau ac yn nodi cyfleoedd i gydweithio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.
- Byddwn yn gweithio i gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid allweddol er mwyn sicrhau y caiff asedau eu rheoli a'u cynnal a'u cadw yn unol ag arferion gorau.

## 4. Rheoli blaenoriaethau croes er mwyn ysgogi gwaith datblygu a thwf cynaliadwy, gan sicrhau aliniad strategol ar gyfer Cymru lewyrchus.

- Byddwn yn gweithio i nodi cyfleoedd i ysgogi gwaith datblygu a thwf cynaliadwy yn y dyfodol er mwyn sicrhau cynnydd hirdymor tuag at sicrhau Cymru lewyrchus.
- Byddwn yn nodi blaenoriaethau croes ac yn gweithio i reoli asedau tir ac eiddo mewn ffordd sy'n cyfrannu at dwf economaidd.
- Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o'r llywodraeth er mwyn sicrhau bod gweithgarwch rheoli asedau corfforaethol yn cyd-fynd â'r agenda strategol ehangach.
- Byddwn yn hyrwyddo cydweithio drwy chwilio am amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn sicrhau y mabwysiedir dulliau arloesol o ysgogi datblygu cynaliadwy.
- Byddwn yn gweithio i ddilyn a chefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru a rheoli blaenoriaethau croes mewn ffordd sy'n cyflawni canlyniadau gwerth cyhoedduss.

## 5. Hyrwyddo cydweithio er mwyn gwella economi, amgylchedd a llesiant pobl Cymru.

- Byddwn yn gweithio i feithrin trefniadau cydweithio hirdymor mewn sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y sector cyhoeddus.
- Byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo rheoli asedau yn unol ag arferion gorau er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau gwell i bobl Cymru.
- Byddwn yn hyrwyddo amcanion polisi ac amcanion strategol cenedlaethol mewn cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y sector cyhoeddus er mwyn ceisio integreiddio'r nodau hyn mewn prosesau rheoli asedau.
- Byddwn yn hyrwyddo cydweithio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus ehangach er mwyn gwella economi, amgylchedd a llesiant pobl Cymru.